| HYSBYSIAD PREIFATRWYDD – YR ARCHWILIAD DIABETES CENEDLAETHOL | |
|---|---|
| Mae'r Archwiliad Diabetes Cenedlaethol (ADC) yn ffordd o fesur ansawdd gofal iechyd diabetes yng Nghymru a Lloegr yn erbyn canllawiau a safonau a gyhoeddwyd gan y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE). Mae adroddiadau'n cael eu llunio a'u defnyddio i ysgogi newidiadau a gwella ansawdd gwasanaethau a chanlyniadau iechyd i bobl â diabetes. | |
| **Y data sy'n cael ei gasglu** | **Pa ddata sy'n cael ei gasglu?**<br>Mae data am gleifion unigol yn cael ei gasglu a'i ddadansoddi ond nid yw'r allbynnau (yr adroddiadau a gynhyrchir) yn adnabod unigolion.<br><br>Mae'r archwiliad yn casglu'r data adnabyddadwy canlynol ar gyfer pobl â diabetes:<br>Rhif GIG, cod post, rhyw, dyddiad geni, cod practis meddyg teulu.<br><br>Nid yw enwau pobl yn cael eu casglu.<br><br>**Pam mae data'n cael ei gasglu?**<br>Defnyddir y meysydd hyn i gysylltu cofnodion lluosog ar draws y llwybr gofal (sut mae cleifion yn cael eu hasesu, eu trin a'u dilyn i fyny) i roi cyfrif am gofnodion dyblyg, deall cyfraddau cymhlethdod (cyfran y cleifion sy'n profi digwyddiadau niweidiol neu broblemau yn ystod triniaeth feddygol neu lawdriniaeth) ac i gysylltu â data'r Swyddfa Ystadegau Gwladol i ganfod y gyfradd marwolaethau (nifer y marwolaethau mewn poblogaeth benodol).<br><br>Ar ôl cysylltu'r data, defnyddir cyn lleied o ddata adnabyddadwy ag sydd wir ei angen mewn dadansoddiad dilynol. Er enghraifft, mae cod post yn cael ei drosi i Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is (LSOA - ardal ystadegol sy'n caniatáu mewnwelediadau lleol ond sy'n osgoi adnabod unigolion). Defnyddir codau practisau meddygon teulu i nodi cleifion sydd wedi cofrestru mewn practisau penodol ac i grwpio cleifion yn ôl practis neu Fwrdd Iechyd Lleol er mwyn caniatáu cymariaethau o ganlyniadau cleifion (canlyniadau neu effeithiau gofal a thriniaeth). Mae hyn yn helpu'r GIG yng Nghymru i ddeall a yw cleifion mewn rhai ardaloedd yn cael eu trin yn unol â chanllawiau cenedlaethol ac a yw cleifion mewn rhai ardaloedd yn cael canlyniadau iechyd gwell. |
| **Sut mae data'n cael ei ddefnyddio a'i ddatgelu** | Mae Iechyd a Gofal Digidol Cymru (IGDC) yn Awdurdod Iechyd Arbennig sydd â chyfrifoldebau penodol am ddata iechyd yng Nghymru. Mae IGDC yn echdynnu gwybodaeth berthnasol o systemau meddygon teulu ac yn ei darparu i GIG Lloegr, sy'n dadansoddi'r data ac yn llunio adroddiadau'r ADC ar gyfer Cymru a Lloegr i gyd. Mae hon yn broses sefydledig.<br><br>O 2026 ymlaen, bydd IGDC hefyd yn derbyn data lefel cleifion yn ôl gan GIG Lloegr. Bydd hyn yn caniatáu i'r GIG yng Nghymru gynnal dadansoddiad y gellir ei ddefnyddio i wella gofal diabetes ledled Cymru, megis cysylltu'r data a gesglir i gyflawni'r ADC, â gwybodaeth arall a gedwir. Er enghraifft, gellir defnyddio data i benderfynu a yw pobl â diabetes mewn rhai ardaloedd yn fwy |

| | |
|---|---|
| | tebygol o gael eu derbyn i'r ysbyty, am ba hyd y byddant yn aros a pha mor debygol yw y byddant yn datblygu cymhlethdodau difrifol. Ni fydd y wybodaeth hon yn cael ei defnyddio i wneud penderfyniadau am eich gofal a'ch triniaeth unigol.<br><br>Bydd y dadansoddiad yn cael ei ddefnyddio i wella cydlynu gwasanaethau diabetes a darparu canlyniadau gwell i gleifion. Bydd adroddiadau'n cael eu gwneud yn ddienw (sy'n golygu na ellir eich adnabod oddi wrthynt) a'u crynhoi cyn iddynt gael eu rhannu â phobl sy'n gyfrifol am wneud penderfyniadau ynghylch sut a ble mae gwasanaethau'n cael eu darparu. Y nod yw darparu gofal o ansawdd gwell sy'n gwneud y gorau o'r adnoddau sydd ar gael i'r GIG yng Nghymru.<br><br>Mae meddygon teulu yn gyfrifol am ddata a gedwir ar systemau meddygon teulu. Pan fyddant wedi datgelu data yn gyfreithlon (fel y maent ar gyfer yr ADC), mae sefydliadau eraill wedyn yn cymryd cyfrifoldeb;<br>• IGDC ar gyfer casglu data a darparu data i GIG Lloegr a'r data y mae'n ei dderbyn yn ôl gan GIG Lloegr.<br>• GIG Lloegr dros ddiogelwch a chyfrinachedd y data sydd ganddynt at ddibenion dadansoddi. Mae rôl GIG Lloegr yn yr ADC wedi'i sefydlu gan gais ffurfiol, a elwir yn 'gais adran 255'.[i] |
| **Y sail gyfreithiol ar gyfer prosesu** | Mae Gweinidogion Cymru, drwy Brif Swyddog Meddygol Cymru, wedi cyfarwyddo Byrddau Iechyd Lleol yng Nghymru i gymryd rhan ym mhob archwiliad clinigol cenedlaethol, gan gynnwys yr ADC, a restrir yn y Cynllun Canlyniadau ac Adolygu Archwiliad Clinigol Cenedlaethol.<br><br>Fel comisiynwyr gwasanaethau gofal sylfaenol yn eu hardal, mae'r Byrddau Iechyd Lleol wedi cyfarwyddo practisiau meddyg teulu i ganiatáu i IGDC dynnu data sy'n berthnasol i'r ADC. Heb y data hwn ni ellid cyflawni'r Archwiliad Diabetes Cenedlaethol. Mae'n ofynnol i feddygon teulu ganiatáu mynediad o dan ddarpariaethau'r rheoliadau sy'n llywodraethu eu contractau â Byrddau Iechyd Lleol[ii] .<br><br>Mae IGDC wedi'i gyfarwyddo i gasglu a phrosesu'r wybodaeth berthnasol gan feddygon teulu at ddibenion cyflawni'r ADC, ac i dderbyn y wybodaeth archwilio gan GIG Lloegr i'w dadansoddi. Mae rôl IGDC yn gyson â'i Orchymyn Sefydlu a'r Cyfarwyddiadau Gweinidogol[iii].<br><br>Mae Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data y DU (GDPR y DU) yn caniatáu i sefydliadau brosesu data adnabyddadwy unigolion (data personol) a chategorïau arbennig o ddata personol (gan gynnwys data iechyd) pan fodlonir amodau penodol. Cyfeirir at y rhain yn gyffredin fel y 'sail gyfreithlon' ar gyfer prosesu. O ran yr ADC, sail |

| | |
|---|---|
| | gyfreithiol eich meddyg teulu ar gyfer prosesu'r wybodaeth hon yw:<br>• Ar gyfer data personol, Erthygl 6(1)(e) o GDPR y DU; cyflawni tasg a gyflawnir er budd y cyhoedd neu wrth arfer awdurdod swyddogol, ac<br>• Ar gyfer categorïau arbennig o ddata personol, Erthygl 9(2)(h) o GDPR y DU; darparu iechyd neu ofal cymdeithasol, neu driniaeth, neu reoli systemau iechyd a gofal cymdeithasol. |
| **Sut mae eich gwybodaeth yn cael ei storio a'i diogelu** | Mae eich gwybodaeth bersonol yn cael ei diogelu mewn nifer o ffyrdd. Bydd y wybodaeth ofynnol yn cael ei thynnu'n ddiogel o system y practis a'i storio gan IGDC ar systemau cyfrifiadurol sydd wedi'u profi i sicrhau eu bod yn ddiogel, ac sy'n cael eu diweddaru i'w hamddiffyn rhag firysau a hacio.<br><br>Caiff data ei drosglwyddo i GIG Lloegr drwy fecanweithiau diogel, sydd â'i systemau ei hun sy'n ddiogel ac wedi'u hamddiffyn rhag firysau a hacio, a'i ddychwelyd drwy'r un mecanwaith.<br><br>Dim ond staff sydd wedi'u hyfforddi'n benodol mewn diogelu data a chyfrinachedd fydd yn cael mynediad at ddata ac mae rheolaethau ar waith i sicrhau mai dim ond y lleiafswm o wybodaeth bersonol sydd ei hangen arnynt i wneud eu gwaith y gall yr holl bobl hyn ei gweld. |
| **Eich hawliau dros eich gwybodaeth** | O dan y gyfraith diogelu data, mae gennych chi nifer o hawliau dros eich gwybodaeth bersonol. Mae gennych yr hawl i:<br><br>- ofyn am gopi o unrhyw wybodaeth sydd gennym amdanoch<br><br>- gofyn i ni newid unrhyw wybodaeth sydd gennym amdanoch chi yr ydych yn meddwl ei bod yn anghywir<br><br>- gofyn i ni gyfyngu ar ein defnydd o'ch gwybodaeth, er enghraifft, os credwch fod y wybodaeth rydym yn ei defnyddio yn anghywir<br><br>- gwrthwynebu i ni ddefnyddio unrhyw wybodaeth sydd gennym amdanoch, er nad yw hyn yn hawl absoliwt ac efallai y bydd angen i ni barhau i ddefnyddio'ch gwybodaeth – mewn achos o'r fath byddwn yn dweud wrthych pam<br><br>- dileu unrhyw wybodaeth sydd gennym amdanoch, er nad yw hyn yn hawl absoliwt ac efallai y bydd angen i ni barhau i ddefnyddio'ch gwybodaeth – mewn achos o'r fath byddwn yn dweud wrthych pam |

| | |
|---|---|
| | - gofyn i ni beidio â defnyddio'ch gwybodaeth i wneud penderfyniadau awtomataidd amdanoch chi heb fewnbwn gan aelod o'n staff<br><br>Gallwch arfer unrhyw rai o'ch hawliau trwy gysylltu â'ch practis meddyg teulu. |

[i] Adran 255 o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2012: Archwiliad Diabetes Cenedlaethol ar gyfer GIG Cymru 2021 - GIG Lloegr Ddigidol
[ii] Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Contractau Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) (Cymru) 2023; paragraffau 85 ac 86 o Atodlen 3.
[iii] Iechyd a Gofal Digidol Cymru: sefydlu a swyddogaethau | LLYW.CYMRU